Cysylltiadau i Coed Campus Cymru Gampus

COETIROEDD YN CEFNOGI CYMUNEDAU EFFEITHIOL A PHARHAOL		
Mae pobl yn teimlo bod nodweddion gweladwy, diwylliannol a hanesyddol cefn gwlad yn cyfrannu at eu	**Tirweddau prydferth a neilltuol**	**1.1 Coetiroedd a gynllunnir ac a reolir i fod mewn cytgord â hynodrwydd eu hamgylchoedd**
		Isbrosiect ALTMAN. Dadansoddiad o systemau rheoli eraill. **Partneriaid:** Ymchwil Coedwigoedd, Prifysgol Bangor, IBA (Brandenburg) a PROFOMUR (Murcia) **Buddion Uniongyrchol i Gymru:** Ym mhob un o'r rhanbarthau partner, mae diffyg rheoli gweithredol yn golygu nad yw tir mewn ardaloedd gwledig yn gwireddu ei botensial o ran cyflwyno nwyddau a gwasanaethau. Mae llawer o goetiroedd yng Nghymru a berchnogir yn breifat heb eu rheoli, er na ddeallir y rhwystrau i reolaeth weithredol yn llawn. Gwella'r ddealltwriaeth o adnoddau coedwig sy'n bodoli eisoes, nodi'r darnau posibl o dir ar gyfer creu coedwigoedd arnynt, a gwerthuso effeithiau posibl strategaethau eraill ar gyfer rheoli coedwigoedd (Coedwigaeth Gorchudd Parhaus – CGP). Bydd ALTMAN yn gwella'r ddealltwriaeth o'r adnoddau coedwig presennol, yn nodi'r darnau posibl hynny o dir ar gyfer creu coedwigoedd arnynt, a gwerthuso effeithiau posibl strategaethau eraill ar gyfer rheoli coedwigoedd (CGP) Cymharu effeithiau strategaethau eraill ar gyfer rheoli coedwigoedd ar lif pren a gwasanaethau eraill, a gwerthuso costau/manteision dilynol strategaethau eraill ar gyfer rheoli coedwigoedd yn y sector preifat a'r sector cyhoeddus. Gwella'r ddealltwriaeth o pam y bo coetiroedd sector preifat yng Nghymru (Ewrop) naill ai'n cael eu rheoli neu ddim yn cael eu rheoli a sut y dylanwadir ar y bwriad i reoli gan symud i gyfeiriad CGP a chyfleoedd newydd yn y farchnad.

COETIROEDD YN GWNEUD CYFRANIAD CADARNHAOL I ECONOMI CYMRU		
Economi amrywiol, gystadleuol, sy'n ychwanegu'n uchel at werth ynghyd â sgiliau ac addysg sy'n lleihau'r galw ar yr amgylchedd	**Cyflenwi pren o ansawdd da a gynhyrchir mewn dull cynaliadwy sy'n bodloni gofynion busnes**	**1.1 Cyflenwi cynhyrchion pren a gynhyrchwyd yn gynaliadwy o ansawdd da ac amrywiaeth o gynhyrchion sy'n adlewyrchu'r ffaith bod newid yn natur y coedwigoedd yng Nghymru**
		Isbrosiect: LOGINWOOD Astudiaethau ar gyfer cadwyn gyflenwi tanwydd pren a sut y gellir defnyddio gweddillion o weithgareddau coedwigaeth at ddibenion ynni. **Partneriaid:** ARGEM (Murcia), Prifysgol Ebeswalder (Brandenburg), Prifysgol, Bangor, Ymchwil Coedwigoedd ac ENVIROS. **Manteision Uniongyrchol i Gymru:** Bydd y prosiect yn edrych ar argaeledd tanwydd pren fesul rhanbarth o ystyried cyffredinolrwydd marchnad cyd-danio ynni gynyddol, cyfleusterau sy'n cyfuno gwres a phŵer ar raddfa ganolig a chynnydd ym marchnadoedd gwres. Y rheswm yw bod risg bosibl y gall datblygu marchnadoedd gwres lleol fod o dan fygythiad oddi wrth gyffredinolrwydd marchnadoedd cyd-danio neu farchnadoedd gwres a phŵer cyfunedig mawrion cyfagos. Y rheswm am hyn yw y gall y marchnadoedd mawr hyn gymryd llawer o'r tanwydd a fyddai fel arall ar gael i'r farchnad wres oherwydd contractau am gyfnodau mwy manteisiol, y gallu i brynu mwy ac ati. Bydd LOGINWOOD yn datblygu model dynamig y gall y Comisiwn Coedwigaeth ei ddefnyddio i nodi'r adnodd sydd ar gael ar gyfer y farchnad tanwydd Pren. Mae angen cynyddol am y math hwn o offer fel y datblygir mwy o brosiectau gan ei fod yn caniatáu'r Comisiwn Coedwigaeth i olrhain pa adnoddau sydd eisoes wedi'u neilltuo ac felly beth sydd ar gael. Adolygu'r adnodd data presennol ar argaeledd tanwydd Sefydlu cromliniau ar gyfer deunyddiau coedwigaeth ar sail prisiau yn y marchnadoedd hynny lle ceir y defnydd pennaf. Cyflwyno elfen ddynamig i'r set ddata trwy gynnwys gwybodaeth am brisiau allanol Cynnwys effeithiau costau cludiant Llunio offeryn olrhain rhyngweithiol gan ddefnyddio'r set ddata hon i olrhain yr ymrwymo ar adnoddau

	Datblygu mwy o nwyddau a gwasanaethau o goetiroedd ac ehangu eu marchnadoedd	**2.2 Hyrwyddo defnydd terfynol gwerth uchel ar gyfer holl gynhyrchion coetiroedd sy'n golygu adenillion rhesymol i dyfwyr a hyrwyddo pren yn adnodd adnewyddadwy ac yn ddeunydd cynaliadwy** **2.2.a Gwella a rhannu (â gwledydd eraill) gwybodaeth a dealltwriaeth am sut y gellir ychwanegu at werth pren**
		Isbrosiect: CYNNYRCH LLEOL Deunydd gradd saernïaeth o goetiroedd conwydd bychan eu trawsfesur **Partneriaid:** Parc Aveto, Ligwria, SFMID Murcia a Choed Cymru **Manteision Uniongyrchol i Gymru:** Gall manteisio i'r eithaf ar ychwanegu at werth cnwd pren fod yn gymhelliant pwysig i reoli coetiroedd. Mae amcanion rheoli da ar goetiroedd a chynhyrchion gwerth uchel yn mynd law yn llaw. Mae coetiroedd a berchnogir yn breifat yn dueddol o fod yn llai o ran maint ac yn fwy gwasgaredig a gall hyn fod yn anghydnaws â cheisio mynediad i'r marchnadoedd torfol. Bydd y prosiect hwn yn ceisio rhoi gwybodaeth i'r mathau hyn o goetiroedd a hefyd i weithredwyr melinau llifio llai, er mwyn nodi a didoli deunydd gradd saernïaeth (p'un a wneir hyn yn y cnwd sy'n tyfu neu yn y felin lifio). Yng Nghymru, bydd hyn yn canolbwyntio ar y systemau rheoli ar gyfer cnydau pyrwydd a phinwydd, ond bydd y canlyniadau'n gymwys ar gyfer y rhan fwyaf o gnydau conwydd. Astudio effaith y math o safle a'r system reoli a ddefnyddir ar gyfer coetiroedd conwydd ar y gyfradd o bren gradd saernïaeth gwerth uchel a geir. Nodi pren gradd saernïaeth yn y cnwd sy'n tyfu a phennu'r cnwd mewn systemau coedamaeth gwahanol. Llunio argymhellion ar gyfer arfer gorau i fanteisio i'r eithaf ar y deunydd gwerth uwch hwn.
		Isbrosiect: LADY MARIAN defnydd lleol o bren lleol, gan ystyried yn benodol pa mor wydn yw pren lleol ac a oes modd ei drin. Partneriaid: Parc Aveto, Ligwria, Sefydliad Ymchwil Adeiladau a Phrifysgol, Bangor **Manteision Uniongyrchol i Gymru:** Bydd y prosiect yn asesu'n feirniadol wydnwch rhywogaethau pren a ddewiswyd ac a oes modd eu trin, er mwyn penderfynu eu haddasrwydd i sector adeiladu lleol pan y'u defnyddir i godi tai fforddiadwy. Trwy weithgareddau o'r fath, bydd yn bosibl creu cyfle

		marchnata dangosadwy ar gyfer pren lleol gan ddarparu adenillion ariannol o goedwigaeth leol y mae eu hangen yn fawr. Gwerthuso gwydnwch ystod o rywogaethau pren ac a oes modd eu trin gyda'r nod o uwchraddio gwerth pren lleol. Llunio cronfa ddata fel y gall defnyddwyr lleol asesu'r defnydd gorau o'u pren. Cynyddu'r ddealltwriaeth o'r defnydd o bren mewn adeiladu a thrwy hyn ehangu marchnadoedd ac elw adnoddau pren.
	Adfywio lleol trwy gyfrwng coedwigoedd o werth sydd wedi'u rheoli'n dda ar ffermydd, yn y gymuned, yn ogystal â rhai bychain	**3.2 Cyngor a gwybodaeth am grantiau ar gyfer rheoli coetiroedd bychan a choetiroedd fferm**
		Isbrosiect: DENDROVITA Nodweddion coed unionlin a bychan mewn ardaloedd gwledig. Ffynonellau posibl o gyflenwad pren a rhwydweithiau cynefin. Partneriaeth rhwng Brandenburg, Prifysgol Bangor ac Ymchwil Coedwigoedd. **Partneriaid:** ATB Brandenburg, Ymchwil Coedwigoedd a Phrifysgol, Bangor **Manteision Uniongyrchol i Gymru:** Yn y rhanbarthau partner mae tuedd i goetiroedd fod yn dameidiog iawn ac mae diddordeb mewn datblygu rhwydweithiau cynefin coetir. Mae angen edrych yn fanylach sut y gall lleoli coed mewn tirweddau amaethyddol fod yn gydnaws â datblygu rhwydweithiau cynefin coetir, gan asesu effeithiau'r mathau gwahanol o orchudd coed ac edrych ar ragolygon ar gyfer cyfuno ystyriaethau lloches, hydroleg, bioamrywiaeth, cyflenwi pren/tanwydd pren a chanfyddiadau'r cyhoedd. Asesir effaith mathau gwahanol o orchudd coed, ar sail rhesymau sylfaenol gwahanol o ran cynyddu'r gorchudd coed ar gyfer darparu cynefin coetir ar y dirwedd amaethyddol yng Nghymru. Edrych ar y rhagolygon i gyfuno ystyriaethau lloches, hydroleg, bioamrywiaeth a chanfyddiadau'r cyhoedd wrth nodi blaenoriaethau gofodol penodol ar gyfer cadw ac ehangu gorchudd coed ar

		dirwedd amaethyddol. Cyflwynir argymhellion ar sail blaenoriaeth y lleoliad o ran gorchudd coed ac ar anghenion polisi i annog tyfu coed lle byddant o'r budd mwyaf ar dirwedd amaethyddol. Nodi a chofnodi anghenion polisi i annog cadw ac ehangu gorchudd coed lle y bo mwyaf ei angen ar dirweddau amaethyddol tameidiog.

COETIROEDD YN CYFRANNU AT AMGYLCHEDD MWY IACH A GWYDN

Cyflwr gwell i'r amgylchedd naturiol ac ecolegol	**Gwelliannau ym mioamrywiaeth a chyflwr ecolegol coetiroedd Cymru**	**1.1 Mwy o fesur o goetiroedd ag ardystio annibynnol**
		Yr adroddiad Cynllunio ac Ardystio a wnaed gan Robinwood. Staff CCC a benderfynodd strwythur yr adroddiad i edrych ar y cyfundrefnau cynllunio ac ardystio presennol yng Nghymru ac yn ein rhanbarthau partner. Dadansoddi'r cyfundrefnau hyn a phenderfynu ar argymhellion i wella cynllunio ac ardystio coetiroedd, yn enwedig yn y sector preifat.
		1.2 Gwelliannau yng ngwerth bioamrywiaeth coetiroedd Cymru
		Isbrosiect ALTMAN. Dadansoddiad o systemau rheoli eraill. **Partneriaid:** Ymchwil Coedwigoedd, Prifysgol Bangor, IBA (Brandenburg) a PROFOMUR (Murcia) **Manteision Uniongyrchol i Gymru:** Ym mhob un o'r rhanbarthau partner, mae diffyg rheoli gweithredol yn golygu nad yw'r tir mewn ardaloedd gwledig yn gwireddu ei botensial o ran nwyddau a gwasanaethau. Mae llawer o goetiroedd yng Nghymru a berchnogir yn breifat heb eu rheoli, er na ddeallir y rhwystrau i reolaeth weithredol yn llawn. Gwella'r ddealltwriaeth o adnoddau coedwig sy'n bodoli eisoes, nodi'r darnau posibl o dir ar gyfer creu coedwigoedd arnynt, a gwerthuso effeithiau posibl strategaethau eraill ar gyfer rheoli coedwigoedd (Coedwigaeth Gorchudd Parhaus – CGP).

		Bydd ALTMAN yn gwella'r ddealltwriaeth o'r adnoddau coedwig presennol, yn nodi'r darnau posibl hynny o dir ar gyfer creu coedwigoedd arnynt, a gwerthuso effeithiau posibl strategaethau eraill ar gyfer rheoli coedwigoedd (CGP). Cymharu effeithiau strategaethau eraill ar gyfer rheoli coedwigoedd ar lif pren a gwasanaethau eraill, a gwerthuso'r costau/manteision ohonynt yn y sector preifat a'r sector cyhoeddus. Gwella'r ddealltwriaeth o pam bo coetiroedd sector preifat yng Nghymru (Ewrop) naill ai'n cael eu rheoli neu ddim yn cael eu rheoli a sut y dylanwadir ar y bwriad i reoli gan y symud i gyfeiriad CGP a chyfleoedd newydd yn y farchnad.
	Mwy o reoli tir integredig	**2.1 Rheoli gwell ar ddalgylchoedd afonydd o ganlyniad i greu coetiroedd**
		Adroddiad Coedwigoedd a Hydroleg Robinwood. Adolygiad o'r sefyllfa gyfredol ac edrych i'r dyfodol o ran swyddogaeth Coedwigoedd a rheoli dalgylchoedd yng Nghymru
		2.1b Canolbwyntio adnoddau sydd ar gael ar gyfer creu coetiroedd newydd cynhenid i wella statws ecolegol afonydd, i helpu atal llifddwr a'i ymdreiddio a chlustogi erydu pridd a llygredd
		Isbrosiect: FRIARTUC Mesur a modelu hydrolegol o ran rheoli coedwigoedd **Partneriaid:** Prifysgol Murcia a Phrifysgol, Bangor **Manteision Uniongyrchol i Gymru**: Ni wyddys llawer am sut y mae coed ar ffermydd Cymru yn effeithio ar batrwm y glaw ac ar faint o law sy'n cyrraedd y ddaear a'r canlyniadau o ran hydroleg pridd. Bydd y gwaith hwn yn cyfrannu at ddeall y cylch hydroleg ac yn darparu cydran allweddol o'r deall hwnnw yn nhirweddau ffermydd ucheldir ac yn helpu nodi swyddogaeth coed o ran lleihau llifogydd ac erydu pridd. Cefnogir y prosiect hwn yng Nghymru gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, Coed Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd, Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Consortiwm Ymchwil Rheoli Perygl Llifogydd a'r Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Leol. Ei nod yw edrych ar atal, ymdreiddio, clustogi a rheoli llygredd ar goetiroedd fferm bychain ac unionlin yn y dirwedd amaethyddol.
		2.1c Cydweithhio ag Asiantaeth yr Amgylchedd i gefnogi unrhyw fesurau perthnasol i gyflawni statws dŵr ecolegol dda yng Nghymru erbyn 2015
		Isbrosiect: ROBINFLOOD a fydd yn archwilio gallu coetiroedd ar lannau afonydd i rwystro llif afonydd, yn bennaf trwy ffurfio argaeau mawr o weddillion pren a fydd yn darparu cronfeydd yn yr afonydd a llif dros y glannau.

		Partneriaid: Ymchwil Coedwigoedd a chynghorau lleol Pliego a Moratella, Murcia **Manteision Uniongyrchol i Gymru:** Mae'r perygl o gael llifogydd yn fater pwysig yn y rhanbarthau partner a disgwylir i lifogydd eithafol ddod yn rhywbeth a fydd yn digwydd yn fwy mynych o ganlyniad i'r cynnydd a ragwelir yn y glaw a geir yn y gaeaf oherwydd newid yn yr hinsawdd. Mae canran uchel o ddatblygu yn digwydd ar dir isel a fygythir gan lifogydd, ac ystyrir bod dros 100,000 o eiddo preswyl yng Nghymru mewn perygl. Mae'r pris uchel o ddarparu amddiffynfeydd cadarn yn erbyn llifogydd a'u gwerth ecolegol ac esthetig isel wedi creu newid yn y polisi i hyrwyddo atebion peirianegol haws a mwy cynaliadwy trwy reolaeth cwrs dŵr a gwaith cadwraeth a choedwigaeth yn lle hynny. Mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn hyrwyddo'r defnydd o Gynlluniau Rheoli Llifogydd Dalgylch i nodi cyfleoedd i reoli'r defnydd o dir er mwyn gostwng llifogydd Darparu tystiolaeth y gall rheoli gwell ar goetiroedd sydd ar lannau afonydd ac ar orlifdir fod yn ddull cynaliadwy i ostwng llifogydd, a gall arwain at blannu coetiroedd newydd ar lannau afonydd.
	Coetiroedd a all addasu i newid yn yr hinsawdd a helpu i liniaru ei effaith ar bobl	**3.2 Hyrwyddo cynhyrchu a defnyddio cynnyrch coedwig addas yn danwydd pren, a darparu y cynhyrchion tanwydd pren yn uniongyrchol**
		Adroddiad Tanwydd Pren Robinwood sy'n tynnu at ei gilydd yr arferion amrywiol yn y rhanbarthau partner. Yn nodi'r cryfderau a'r gwendidau ym mhob rhanbarth partner.
		3.2a Annog sefydlu yng Nghymru, rwydwaith bach o farchnadoedd gwres a gwres a phŵer wedi'u cyfuno, bach neu ganolig eu maint
		Isbrosiect: CYNNYRCH LLEOL, Cynllunio a rhoi prawf i beledydd bach (llai na 250 cilogram yr awr). I alluogi busnesau bach yn y sector prosesu coed i droi cynhyrchion o bren ar y cyd yn belenni pren o werth uchel **Partneriaid:** Ligwria, Murcia a Choed Cymru **Manteision Uniongyrchol i Gymru:** Mae'r sector busnesau coed bach yn cynhyrchu cynhyrchion pren ar y cyd sydd o werth isel. Mae'r posibilrwydd y gellir troi'r rhain i fod yn danwydd pelenni pren o werth cymharol uchel y gellir eu defnyddio i wresogi'r busnes neu eu gwerthu ymlaen am elw. Mae'r melinau pelenni presennol ar raddfa ganolig neu raddfa fawr (250 cilogram i 10 tunnell fetrig yr awr) ac mae'n anodd iddynt drin deunydd cymysg. Mae angen felly am offer arloesol ar

		raddfa fach. Bydd y prosiect hwn yn archwilio'r technolegau tablu presennol, yn penderfynu a ydynt yn addas, yn gost-effeithiol ac a ellir eu haddasu er mwyn eu gwella. Yna adeiledir prototeip a llunio rhaglen o brofion.
		Isbrosiect:We Have Energy Home, Astudiaeth o gynhyrchu tanwydd pren a'r defnydd ohono yn lleol mewn ardaloedd gwledig **Partneriaid:** Rhanbarthau hunanlywodraethol Kosice a Presov, Slofacia a'r Gangen Datblygiadau Technegol Datblygu canllawiau arfer gorau ar gyfer cynhyrchu tanwydd pren ar raddfa fach i ganolig Bydd yn hyrwyddo cynhyrchu a defnyddio tanwydd pren yn rhan o reolaeth gynaliadwy coetiroedd Cymru a datblygiad cynaliadwy y Gymru wledig.
		3.2b Dylanwadu rhwydweithio er mwyn codi proffil cystadleurwydd ynni ar sail pren a'r statws adnewyddadwy a datblygu systemau i gefnogi a marchnata tanwydd pren
		Isbrosiect: LOGINWOOD Astudiaethau o gadwyni cyflenwi tanwydd pren a sut y gall gweddillion o goedwigaeth gael eu defnyddio at ddibenion ynni. Partneriaid: ARGEM (Murcia), Prifysgol Ebeswalder (Brandenburg), Prifysgol Bangor, Ymchwil Coedwigoedd ac ENVIROS **Manteision Uniongyrchol i Gymru:** Bydd y prosiect yn edrych ar argaeledd tanwydd pren fesul rhanbarth o ystyried cyffredinolrwydd marchnad cyd-danio ynni gynyddol, cyfleusterau sy'n cyfuno gwres a phŵer ar raddfa ganolig a chynnydd ym marchnadoedd gwres. Y rheswm yw bod risg bosibl y gall datblygu marchnadoedd gwres lleol fod o dan fygythiad oddi wrth gyffredinolrwydd marchnadoedd cyd-danio neu farchnadoedd gwres a phŵer cyfunedig mawrion mewn ardal gyfagos. Y rheswm am hyn yw y gall y marchnadoedd mawr hyn gymryd llawer o'r tanwydd a fyddai fel arall ar gael i'r farchnad wres oherwydd contractau am gyfnodau mwy manteisiol, y gallu i brynu mwy ac ati. Bydd LOGINWOOD yn datblygu model dynamig y gall y Comisiwn Coedwigaeth ei ddefnyddio i nodi'r adnodd sydd ar gael ar gyfer y farchnad tanwydd Pren. Mae angen cynyddol am y math hwn o offer fel y datblygir mwy o brosiectau gan ei fod yn caniatáu'r Comisiwn Coedwigaeth i olrhain pa adnoddau sydd eisoes wedi'u neilltuo ac felly beth sydd ar gael. Adolygu'r adnodd data presennol ar argaeledd tanwydd Sefydlu cromliniau ar gyfer deunyddiau coedwigaeth ar sail prisiau yn y marchnadoedd hynny lle ceir y defnydd pennaf.

		Cyflwyno elfen ddynamig i'r set ddata trwy gynnwys gwybodaeth am brisiau allanol Cynnwys effeithiau costau cludiant Llunio offeryn olrhain rhyngweithiol gan ddefnyddio'r set ddata hon i olrhain yr ymrwymo ar adnoddau
		Isbrosiect: WEM (Addysg a Marchnata Tanwydd Pren) **Partneriaid:** Coed Cymru a Chymdeithas yr Amgylchedd, Addysg a Marchnata Ebeswalder **Manteision Uniongyrchol i Gymru:** Bydd yr isbrosiect ynn archwilio cyfran gynrychiadol o osodiadau tanwydd pren yng Nghymru ac yn Brandenburg, a chasglu data y gellir eu defnyddio i roi gwybodaeth i wneuthurwyr polisi, y diwydiant a'r sawl sy'n ystyried eu defnyddio am y cyfleoedd a gyflwynir gan dechnolegau tanwydd pren. Gwella lefel y wybodaeth am danwydd pren, adnoddau naturiol a diogelu'r amgylchedd. Datblygu deunyddiau ac adnoddau addysgol sy'n ymwneud â thanwydd pren. Casglu data am y gosodiadau presennol a dadansoddi'r gwersi a ddysgwyd oddi wrthynt. Cefnogi a datblygu'r farchnad tanwydd pren trwy addysg, hyrwyddo a digwyddiadau. Darparu pecynnau addysgol i ysgolion. Hyrwyddo tanwydd pren a'i fanteision cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd.

RHOI AR WAITH YN EFFEITHIOL AC YN EFFEITHLON GAN GANOLBWYNTIO AR GWSMERIAID

Y gwerth gorau i gymdeithas o fuddsoddi cyllid cyhoeddus	**Gwasanaethau a chyngor o ansawdd dda iawn i'n cwsmeriaid a'n**	**1.1 Proses Strategaeth Coetiroedd i Gymru yn cael ei rheoli ar ran Gweinidogion**

	rhanddeiliaid	
		Rhoi gwybod i aelodau staff CCC sy'n gyfrifol am adolygiad Strategaeth Cymru o Gynllun Gweithredu Coedwig yr UE, ei gynnwys ac am ddatblygiadau ym Mrwsel. Defnyddio cyllid Interreg IIIC yr UE yn ardaloedd Amcan 1 ac Amcan 2 Cymru.
		1.3 Polisi coedwigaeth yn unol â Choetiroedd i Gymru a pholisi addas arall y Llywodraeth, a chyfreithiau
		Dangos bod Llywodraeth Cynulliad Cymru trwy gyfrwng CCC yn edrych tuag allan ac yn barod i gydweithio, rhannu arfer gorau a gweithio mewn partneriaeth â rhanbarthau eraill yn yr UE.
	Gwell gallu a chanolbwyntio ar gwsmeriaid	**2.1i Gwneud y defnydd gorau o'n hasedau ac edrych ar sut y gellir defnyddio ffynonellau refeniw newydd er mwyn lleihau bod yn ddibynnol ar y ffynonellau cyllid presennol.**
		Trwy ddefnyddio cyllid Interreg IIIC ar gyfer prosiect Robinwood, mae CCC wedi derbyn gwerth £600,000 o gyllid ar gyfer ardaloedd Amcan 1 ac Amcan 2 Cymru, ar draul buddsoddiad o £200,000. Yn y prosiect, mae ganddo fynediad at ganlyniadau ariannu ardaloedd amcan 1 yn ein rhanbarthau partner gwerth £3,000,000. Mae ymchwil y mae CCC wedi gallu dylanwadu arno oherwydd ei le yn y prosiect yn sicrhau ei fod yn berthnasol i Gymru a'i phartneriaid fel ei gilydd.
		2.2 Rheoli effeithiol ac effeithlon ar yr adnoddau dynol yn CCC sy'n gwireddu cyfrifoldebau cyflogwr cyfoes
		Sgiliau rheoli prosiect ac arwain i dîm Robinwood. Sgiliau rheoli arian yn gysylltiedig â'r prosiect sydd y tu hwnt i'r rhai hynny sy'n ofynnol fel arfer oddi wrth staff CCC. Dysgu am arferion gwaith ar draws yr UE a dod â'r wybodaeth hon yn ôl i Gomisiwn Coedwigaeth Cymru.